

Agenda – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom **Marc Wyn Jones**
Dyddiad: Dydd Iau, 25 Tachwedd 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6565
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

Cyfarfod cyhoeddus (09.30–10.45)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon, a datgan buddiannau (09.30)

Dogfennau atodol:

2 Craffu ar Gynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru

(09.30)

(Tudalennau 1 – 28)

Julie James AS – y Gweinidog Newid Hinsawdd

Robert Kent-Smith – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth

Jonathan Oates – Pennaeth Thwf Glân

James Owen – Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Rheolaeth y Tir

Christine Wheeler – Dirprwy Gyfarwyddwr, Newid yn yr Hinsawdd ac

Effeithlonrwydd Ynni

[Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 \(2021 i 25\)](#)



[Tystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid yn cynnig eu sylwadau cychwynnol ar Gynllun Cymru Sero Net](#)

Dogfennau atodol:

Briff ymchwil – Cymru Sero Net

Papur – Cynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

(10.45)

Dogfennau atodol:

3.1 Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 29 – 30)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad mewn perthynas â Fframweithiau Cyffredin

3.2 Bil yr Amgylchedd

(Tudalennau 31 – 32)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Newid Hinsawdd, a'r Cwnsler Cyffredinol, mewn perthynas â'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaethau ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU

3.3 Treillio ar wely'r môr ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

(Tudalennau 33 – 34)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn ymateb i'w lythyr ar 8 Hydref ynglŷn â threillio ar wely'r môr ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

3.4 Carthion yn gollwng o orlifoedd stormydd

(Tudalennau 35 – 36)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â charthion yn gollwng o orlifoedd stormydd

3.5 Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

(Tudalennau 37 – 38)

Dogfennau atodol:

Llythyr at y Cadeirydd gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â Chadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW)

3.6 Cwyn yn erbyn Cyngor Sir y Fflint

(Tudalennau 39 – 49)

Dogfennau atodol:

Llythyr at y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn perthynas â chwyn am weithdrefnau cynllunio yng Nghyngor Sir y Fflint (atodiadau yn Saesneg yn unig)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.45)

Dogfennau atodol:

Cyfarfod preifat (10.45–11.00)

5 Craffu ar Gynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru: trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 2

Dogfennau atodol:

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn cynllunio strategol anffurfiol ynghylch ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JJ/3536/21

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a
Seilwaith Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Tachwedd 11 2021

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch cyn i mi ddod i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, i drafod Cynllun Sero Net Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Hydref 2021.

Cynllun Sero Net Cymru yw ein hail gynllun datgarboneiddio statudol. Gan adeiladu ar seiliau Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019), dyma'r cynllun cyntaf i ni ei gyhoeddi ers cael cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) ym mis Rhagfyr 2020, pan ddisgrifiwyd am y tro cyntaf lwybr cyraeddadwy a fforddiadwy ar gyfer sicrhau allyriadau sero net yng Nghymru. Mae Cynllun Sero Net Cymru yn canolbwyntio ar ein hail gyllideb garbon (2021-2025) ond mae'n edrych tu hwnt i hynny ac yn gosod y sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 a tharged 2030 yn ogystal â tharged sero net 2050.

Ym mis Mawrth 2021, pasiodd y Senedd gyfres o reoliadau i godi targedau allyriadau degawdol Cymru o'r rheini a bennwyd yn 2018 ac i bennu Cyllidebau Carbon 2 a 3 yn unol â hynny. Cafodd y targedau a'r cyllidebau eu rhwymo mewn cyfraith gan ddilyn argymhellion yr CCC:

- Cyllideb Garbon 2 (2021-25): gostyngiad cyfartalog o 37% a therfyn niwtraleiddio o 0%¹.
- Cyllideb Garbon 3 (2026-): gostyngiad cyfartalog o 58%².
- 2030: 63% o ostyngiad.
- 2040: 89% o ostyngiad.
- 2050: o leiaf 100% o ostyngiad (sero net).

¹ Argymhelliad yr CCC ar gyfer CG2 yw gostyngiad cyfartalog statudol o 37% gydag ymrwymiad i ragori ar hynny. Rhaid gwneud o leiaf hyn i gwrdd â Llwybr Cytbwys yr CCC. Mae'r Senedd wedi deddfu terfyn niwtraleiddio o 0% ar gyfer Cyllideb Garbon 2. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r holl ostyngiadau mewn allyriadau rhwng 2021-2025 ddigwydd yng Nghymru.

² Nid oes terfyn amser statudol ar gyfer pennu'r terfyn niwtraleiddio carbon. Byddwn yn pennu terfyn niwtraleiddio CG3 erbyn 2025 fan hwyraf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 22

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yr CCC o'r farn bod hyn yn gyson â llwybrau gwledydd eraill i daro nod Cytundeb Paris o 1.5°C.³ Fodd bynnag, er ei fod yn fwy uchelgeisiol, mae'r risgiau'n dal i fod yn fawr iawn. Byddwn yn dal i brofi effeithiau tymheredd uwch, tywydd eithafol a phwysau difrifol ar yr amgylchedd naturiol am ddegawdau i ddod.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar yr angen i "ragori ar" darged yr ail gyllideb garbon i ostwng allyriadau 37% ar gyfartaledd, yn unol ag argymhelliad yr CCC. Hynny am fod y drydedd gyllideb garbon (2026-2030) yn gofyn am ostyngiad cyfartalog o 58%, sy'n golygu bod yn rhaid gwneud newidiadau anferth nawr iddyn nhw gael amser i gael effaith.

Felly, er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar y Gyllideb Garbon 2, mae hefyd yn ceisio gosod y sylfeini ar gyfer lleihau allyriadau wedi hynny. Er enghraifft, rydym am weld gostyngiadau cyflym mewn allyriadau tai, ond rhaid inni ddwysáu'n hymdrechion presennol a phrofi bod ein ffordd o weithio'n llwyddo – cynllunio ynni yn yr ardal leol, treialu technoleg, datblygu'r gadwyn gyflenwi ac yn y blaen yn y tymor byr.

Mae pum rhan i'r Cynllun hwn:

- **Rhan 1 – Gosod y cyd-destun** – y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymru 2025 a thu hwnt i 2050, trosolwg o'r llwybr gostwng, y data diweddaraf am allyriadau, a golwg ehangach ar ein hallyriadau fel defnyddwyr a'n cyfrifoldebau byd-eang.
- **Rhan 2 – Penderfynu ar yr amodau** – nodi'r gweithredoedd a'r polisiau hynny nad ydynt yn lleihau allyriadau ynddynt eu hunain, ond sy'n gwneud y newid rydym am ei weld yn bosibl.
- **Rhan 3 – Penodau'r sectorau allyriadau** – y llwybr ar gyfer pob sector allyriadau, gan ddisgrifio'r cwmpas, o ble y daw'r allyriadau, y cynnydd hyd yma, ein huchelgais ar gyfer y dyfodol ac yna manylion y polisiau a'r cynigion ynghyd â sut y gallwn sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen ar lefel Cymru gyfan.
- **Rhan 4 – Monitro ac adrodd** – ein strwythurau llywodraethu, dangosyddion perfformiad, amcangyfrifon o'r costau ac yn olaf adran ar sut y datblygwyd y Cynllun i fod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y bydd yn cynyddu'n cyfraniad at y nodau llesiant.
- **Rhan 5 – Y Camau Nesaf** – tynnu sylw at yr ymgysylltu a'r gostyngiadau yn yr allyriadau a sicrhau dros y gyllideb garbon hon, a'r amserlen ar gyfer datblygu ein trydydd Cynllun cyflawni i roi Cyllideb Garbon 3 ar waith.

Ochr yn ochr â'r Cynllun, cyhoeddwn ni hefyd Arfarniad Cynaliadwyedd ar lefel Cymru Gyfan, sy'n nodi'r camau sy'n cael eu cymryd gan fusnesau, cymunedau, unigolion, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru a hefyd Crynodeb o Gynllun Sero Net Cymru.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 123 o gynigion gweithredu a pholisiau. Fodd bynnag, rydym am dynnu'ch sylw at nifer o themâu rydym yn eu disgrifio isod. Credaf fod y themâu hyn yn dirwyn drwy'r cynllun ac yn creu trywydd unigryw Cymreig i daro'r targedau sero net.

Y Llwybr

Mae cyngor yr CCC wedi bod yn amhrisiadwy. Roedd y cyngor wedi ystyried y ddau sbardun, sef arloesi a newid ymddygiad, i ddatblygu pedwar llwybr sero net a'u cyfuno wedyn i ffurfio 'llwybr cytbwys'. O'r llwybr cytbwys hwn y daw'r targedau y mae'r Senedd wedi cytuno arnynt. Fodd bynnag, er i'r CCC wneud gwaith rhagorol wrth ystyried y cyd-

³ Adroddiad Cyngor: Y Llwybr i Gymru Sero Net (CCC, 2026), Tud 9

destun Cymreig a'r dystiolaeth oedd ar gael i ddatblygu eu cyngor i ni, wrth ddatblygu'r Cynllun rydym wedi edrych ar lwybrau eraill. Hynny mewn meysydd lle credwn y gallem efallai ddatgarboneiddio'n gynt neu lle credwn y gall fod yn anodd gwireddu uchelgais yr CCC, neu lle y gallai'r dystiolaeth fod wedi newid eisoes.

Felly, wrth lunio llwybr i fynd â ni at 2050, rydym wedi gwneud rhagor o waith ar 'gyfrifiannell' Cymru 2050, ar ben yr hyn a wnaethom wrth baratoi'r cynllun datgarboneiddio statudol cyntaf. Mae'r gyfrifiannell wedi caniatáu i ni ddadansoddi gwahanol lwybrau trwy amrywio ymdrechion gwahanol rannau cymdeithas. Mae hon yn broses sy'n mynd rhagddi. Bydd angen i ni ddatblygu a mireinio rhagor o dystiolaeth trwy'r amser i lywio'r llwybr strategol tuag at sero net a'r polisiau sydd eu hangen i gyrraedd ein targedau. Byddwn yn dal ati i ddatblygu'r gyfrifiannell i sicrhau ei bod yn adlewyrchu datblygiadau polisi, y dystiolaeth sy'n ymddangos ac wrth gwrs y cyd-destun byd-eang (er enghraifft, y pandemig, y codiad ym mhrisiau nwy).

Mae'r gyfrifiannell yn dangos, drwy gyflawni'r uchelgais a nodir yn y Cynllun, y bydd allyriadau'n gostwng 44% ar gyfartaledd o'u cymharu â'r llinell sylfaen dros gyfnod y Gyllideb Garbon 2. Fel y disgrifiwyd eisoes, rydym yn ceisio rhagori ar y lefel hon o ddatgarboneiddio.

Ymgysylltu

Roedd Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gofyn am gyhoeddi Cynllun Sero Net Cymru cyn diwedd 2021. Cyhoeddwyd y Cynllun yn fwiadol iawn i gyd-fynd â COP26, digwyddiadau COP Cymru ym mhob rhanbarth yng Nghymru a digwyddiadau Wythnos Hinsawdd Cymru. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd, busnesau a sefydliadau Cymru yn hanfodol i ni allu gwireddu'n huchelgeisiau.

Er mwyn sicrhau allyriadau sero net, rhaid i bawb chwarae ei ran. Mae'r gostyngiad yn ein hallyriadau a welwyd hyd yma wedi digwydd gan fwyaf yn y meysydd lle nad oedd angen llawer o ymgysylltu â'r cyhoedd. Er enghraifft, o ran y newidiadau i'r grid trydan, nid oedd gofyn i bobl Cymru ddefnyddio ynni'n wahanol. Er mwyn taro'n targedau sero net, bydd gofyn i bob un ohonom ystyried a newid y ffordd rydym yn byw ein bywydau bob dydd.

Roedd bron i 60% o'r gostyngiadau yn senarios yr CCC hyd at 2035 yn gofyn ar i lawer o bobl weithredu neu ddewis yn wahanol, er enghraifft trwy fabwysiadu technolegau carbon isel newydd (er enghraifft gyrru ceir trydan neu osod pwmp gwres) neu ddewis bwyta bwydydd carbon is, hedfan llai a dewis cynhyrchion sy'n para'n hirach⁴. Wrth gwrs, gall llawer o'r newidiadau hyn ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac iechyd i Gymru.

Mae maint y newidiadau sydd eu hangen yn golygu bod yn rhaid wrth ddeialog ac addysg ar draws cymdeithas. O ragdybio y bydd cael y cyhoedd i gyfrannu at benderfyniadau yn hwb i newid ymddygiad, byddwn yn ymgynghori ar Strategaeth Ymgysylltu ar Newid Ymddygiad y Cyhoedd yn 2022, a fydd yn nodi sut y gall cymdeithas fod yn rhan o'r newidiadau y gall unigolion a chymunedau eu gwneud i helpu Cymru i fod yn sero net.

Cyn y strategaeth ymgysylltu hon, rydym am fanteisio ar y cyfle y mae COP26 yn ei roi i ni i ymgysylltu'n eang. Mae COP Cymru yn gyfres o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ym mis Tachwedd, gan gyd-fynd â COP26, a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd gynnal sgwrsiau pwysig am y newid yn yr hinsawdd.

Gan ddechrau ar 22 Tachwedd, bydd Wythnos Hinsawdd Cymru yn drafodaeth bum niwrnod ledled y wlad am Gynllun Sero Net Cymru a'r hyn y bydd angen i ni i gyd ei wneud i sicrhau bod Cymru'n cyrraedd ei thargedau. Bydd y rhaglen o ddigwyddiadau rhithwir yn

⁴ [y-llwybr-i-gymru-sero-net-adroddiad-dyngedol-llwybr-2050](#) Tudalen 145

agored i bawb ac yn helpu pobl i ddeall yr hyn y mae Cymru eisoes wedi'i wneud, y newidiadau y gallwn eu disgwyl yn y pum mlynedd nesaf a sut y gallwn, gyda'n gilydd, greu'r dyfodol. Bydd yr wythnos yn gyfle i ystyried canlyniadau pwysig COP26 a Chynllun Sero Net Cymru – gyda'r nod o feithrin ymdeimlad o undod a'n bod i gyd yn mynd i'r un cyfeiriad at gyflawni ein cenhadaeth genedlaethol o gyflawni sero net.

Daeth 80 o siaradwyr ynghyd dros bum niwrnod Wythnos Hinsawdd Cymru 2020, gyda thros 2,000 o gyfranogwyr ac rwy'n gobeithio y bydd y digwyddiad eleni hyd yn oed yn fwy llwyddiannus.

I gofrestru ar gyfer y digwyddiadau. Cliciwch ar y dolenni isod:

<https://freshwater.eventscase.com/CY/COPCymru21>

<https://freshwater.eventscase.com/EN/COPCymru21>

Rwy'n deall nad ydym yn dilyn union yr un trywydd â Strategaeth Sero Net y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar dechnoleg nag ar newid ymddygiad. Byddaf am drafod rôl Llywodraeth y DU nes ymlaen yn y papur hwn.

Cyfiawnder Hinsawdd

Bydd newid cyfiawn yn sicrhau na fyddwn yn gadael neb ar ôl wrth i ni symud at Gymru lanach, gryfach a thecach. Bydd y newidiadau sydd eu hangen i ddatgarboneiddio ein heconomi yn effeithio ar ddiwydiannau, sectorau gweithlu a grwpiau economaidd-gymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd, gan dibynnu ar y llwybrau, y polisiau a'r camau a ddewiswn. Gallai'r newid ein helpu i unioni anghydraddoldebau, ond mae perygl y gallai hefyd eu gwaethygu. Dros gyfnod y cynllun hwn byddwn yn gweithio'n agos gyda'n prif bartneriaid fel cyflogwyr, Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a TUC Cymru i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth a deall yn well sut i sicrhau newid cyfiawn.

At hynny, wrth i ni ddatblygu polisiau, byddwn yn cryfhau ymhellach ein prosesau mewnol integredig ar gyfer asesu effeithiau.

Yn benodol, rhaid i ni ddeall y bydd haenau o effeithiau. Er enghraifft, bydd cymunedau amaethyddol gwledig yn gweld newidiadau i arferion amaethyddol a defnydd tir. Efallai y bydd gan y cymunedau hyn gyfran uchel o gartrefi sy'n anodd eu datgarboneiddio. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn, lle ceir patrymau anheddu mwy gwasgaredig sy'n golygu bod llai o drafnidiaeth gyhoeddus ac o seilwaith digidol, yn tueddu i orfod teithio'n bellach i gael eu hangenrheidiau na phobl sy'n byw mewn trefi. Bydd ein newidiadau ym meysydd amaethyddiaeth, trafnidiaeth, adeiladau, y sector cyhoeddus a defnydd tir i gyd yn effeithio ar y cymunedau hyn ac mae angen eu hintegreiddio a'u cydlynu.

Cydweithio ar draws ffiniau sectorol a daearyddol a chyd-ddibyniaeth â Llywodraeth y DU

Fel y nodwyd wrth drafod cyfiawnder hinsawdd ac ymgysylltu uchod, ni ddaw llwyddiant heb gydweithio. Mae hyn yn allweddol wrth ymdrin â'r dwy agwedd. Yn rhyngwladol, byddwn yn parhau i chwarae rhan fywiog a blaenllaw mewn rhwydweithiau rhyngwladol fel Rhanbarthau 4SD a'r Glymblaid Dan 2. Yn nes adref, rhaid inni gydweithio lawer gwell â Llywodraeth y DU.

Yn ôl asesiad yr CCC, erbyn 2050, bydd tua 60% o'r newidiadau sydd eu hangen yng Nghymru yn dibynnu ar bwerau fydd wedi'u neilltuo'n bennaf i San Steffan. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd y camau sydd eu hangen i ddatgloi dyfodol gwyrdd yng Nghymru, er enghraifft trwy helpu'n ddiwydiannau i newid i ddyfodol glân a chynaliadwy. Er

na all y DU gyrraedd ei thargedau heb i ni yng Nghymru weithredu, ni allwn wireddu'n huchelgais ninnau heb i Lywodraeth y DU hithau chwarae ei rhan deg.

Er gwaethaf yr angen hwn, mae Llywodraeth y DU yn parhau'n bell, yn annelwig ac yn amharod ei help mewn sawl maes. Er i'r Gweinidog Gwladol dros Fusnes, Ynni a Thwf Glân addo dangos drafft o'u Strategaeth Sero Net i ni ym mis Gorffennaf, ni chadwodd at yr addewid hwnnw. Yn hytrach, yn oriau mân y dyddiad cyhoeddi, cawsom gopi dan embargo. Yr un diwrnod, cyhoeddwyd cyfres o bolisïau eraill, megis y Strategaeth Gwres ac Adeiladau hir-ddisgwyliedig, ac ychydig iawn o drafod â Llywodraeth Cymru neu â'i rhanddeiliaid yng Nghymru fu amdanynt.

O ganlyniad, wrth i ni baratoi ein Cynllun Cymru Sero Net ni, ni fu modd rhoi ystyriaeth briodol i'r polisïau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ei strategaeth hi. Ailadroddaf felly'r apêl yn ein cynllun ar i Lywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru er budd Cymru.

Cost newid

Yn eu cyngor, mae'r CCC yn nodi y gallai fod angen cynnydd o ryw 0.5% o GDP (neu £360 miliwn) yn y buddsoddiad cyfalaf ar gyfer darparu sero net yng Nghymru yn 2022, gan gynyddu i 1.7% o'r GDP (£1.4 biliwn) yn 2025, gan gyrraedd uchafbwynt o 3.8% o'r GDP (£3.6 biliwn) yn 2034, cyn i'r ffigur ostwng i lefel lled sefydlog o ychydig o dan 2% o'r GDP (£2.3 biliwn) yn 2050⁵. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amcangyfrif costau yn y dyfodol, mae'r ffigurau hyn yn awgrym yn hytrach nag yn rhagolwg cywir. Yn y tymor hir, mae'r CCC hefyd yn rhagweld arbedion sylweddol yng nghostau tanwydd amrywiaeth o feysydd, a allai gydbwysu cyfran fawr o'r costau buddsoddi ychwanegol.

Yn y tymor byr dros Gyllideb Garbon 2 (2021-2025), mae'r CCC yn nodi y bydd gofyn i'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newid i Gymru carbon isel gynyddu'n raddol dros y cyfnod hwn. Yn ôl llwybr cytbwys yr CCC, dros y cyfnod hwn o 5 mlynedd, amcangyfrifir y bydd y buddsoddi ychwanegol yn costio £4.2 biliwn, o'i gymharu â'r llinell sylfaen o beidio â gweithredu dros yr hinsawdd.

Disgwylir bron i 40% o'r holl fuddsoddi cyfalaf ychwanegol dros y cyfnod hwn fod yn y sector trafndiaeth ar y wyneb. Mae'n debygol mai costau buddsoddi'r sector preifat mewn cerbydau di-allyriadau fydd y rhan fwyaf ohono. Disgwylir i ychydig o dan 30% o'r holl fuddsoddi ychwanegol fynd ar adeiladau, gyda'r rhan fwyaf ohono'n talu am wella effeithlonrwydd ynni drwy ôl-ffitio a gosod gwres carbon isel mewn cartrefi ac adeiladau dibreswyl. Yn olaf, disgwylir i tua 20% o gyfanswm y buddsoddiad ychwanegol fod yn y system cyflenwi trydan trwy osod systemau cynhyrchu carbon isel, yn bennaf mewn ynni adnewyddadwy amrywiol fel paneli solar a gwynt.

Er na fydd y rhan fwyaf o'r costau'n gostau uniongyrchol i'r Llywodraeth, mae angen inni ystyried sut y gallwn ddefnyddio'n hadnoddau ariannol i ysgogi eraill i fuddsoddi.

Gyda Llywodraeth y DU yn cynnal ei Hadolygiad Gwariant ar 27 Hydref, cafodd ein Cynllun Sero Net Cymru ei lunio pan nad oeddem y gwybod beth fyddai'n setliad ariannol ar ôl 2021-22. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru am ddangos ei hymrwymiad trwy gyflawni nodau Cynllun Sero Net Cymru fel rhan o'i Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23.

Mae angen i Lywodraeth y DU gydnabod difrifoldeb yr argyfwng hinsawdd, a neilltuo lefel o gyllid sy'n adlewyrchu'r difrifoldeb hwnnw.

⁵ These figures are based on the CCC's recommended pathway, the Balanced Pathway. Total investment varies in the other scenarios

Integreiddio Polisiâu i sicrhau Llawer o Fanteision

Bydd polisiâu i sicrhau newid teg a llewyrchus i Gymru sero net yn dibynnu i raddau helaeth ar ein gallu i nodi cysylltiadau rhwng polisiâu ac i fanteisio ar y cysylltiadau hynny, er mwyn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein llwybr sero net yn gofyn i ni ddatgarboneiddio ym mhob sector, ac felly mae'n bwysig ein bod yn gwneud y gorau o bob polisi a cham gweithredu. Mae angen i ni feddwl am system gydgysylltiedig ac integreiddio ein gwaith, gan barhau i sicrhau bod pob gweithred yn esgor ar nifer o fanteision a gwneud ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn ganolog i bopeth a wnawn.

Er bod Cynllun Sero Net Cymru yn ymwneud yn bennaf â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd newidiadau sylweddol a di-droi'n-ôl i'n hinsawdd a phatrymau tywydd yn parhau dros y degawdau nesaf. Mae'n bwysig ein bod yn cofio y gallai'r newid yn yr hinsawdd beryglu rhai o'r mesurau ar gyfer sicrhau Cymru sero net. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cyfuno'n polisiâu ymaddasu a lliniaru.

Bydd yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio ein hymatebion polisi fel ein bod yn parhau i edrych i'r hirdymor; yn cael pobl i gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; yn cydweithio â phartneriaid i gyflawni; yn integreiddio ein syniadau i sbarduno lluo o fanteision; ac yn chwilio am gyfleoedd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol newid hinsawdd.

Defnyddio adnoddau'n effeithiol a'r economi gylchol

Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r argyfyngau hinsawdd a natur, rhaid delio â'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau, sef eu hachos sylfaenol. O ystyried bod 45% o allyriadau'r byd yn dod o'r nwyddau a'r cynhyrchion a wneir ac a ddefnyddir bob dydd, mae angen ffordd o weithredu arnom sy'n ein galluogi i ddefnyddio'n hadnoddau'n hirach ac sy'n osgoi pob gwastraff: economi gylchol. Mae hyn yn golygu prysuro camau at ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac at aildefnyddio, trwsio ac ail-weithgynhyrchu ym mhob sector o'r economi, gan gadw a chynyddu swyddi o ansawdd da ledled Cymru, a lle bo'n briodol, defnyddio deunydd cynaliadwy, gan gynnwys deunyddiau naturiol, yn lle deunydd carbon uchel, ynniddwys.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi dod yn arweinydd byd ym maes ailgylchu a rheoli gwastraff, gan droi'n gymdeithas ailgylchu uchel. Ym 1999, roedd llai na 5% o wastraff trefol yn cael ei ailgylchu ond erbyn 2020, mae'r ganran wedi codi i dros 65% gyda chefnogaeth gwerth biliwn o bunnau o fuddsoddiad mewn seilwaith casglu a gweithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae pob aelwyd yng Nghymru wedi chwarae ei rhan yn y llwyddiant hwn sy'n golygu bod gennym y sylfeini i ddatblygu economi gylchol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i newid i economi gylchol ddiwastraff, ddi-garbon drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, fel ein bod ond yn defnyddio'n cyfran deg o adnoddau'r blaned erbyn 2050 ac yn ailgylchu 100% (dim gwastraff). Systemau bioamrywiaeth a hinsawdd y byd fydd yn elwa fwyaf ar hyn ond bydd amgylchedd Cymru ei hun hefyd yn elwa, er enghraifft, o weld llai o lygredd plastig uniongyrchol.

Bydd newid i economi gylchol hefyd yn cael effeithiau da a phwysig hirdymor ar yr economi ac ar bobl, cymunedau a diwylliant Cymru. Gall symud at economi gylchol ddod â manteision economaidd drwy gadw gwerth mewn cadwyni cyflenwi cryfach a byrrach gan alluogi pobl a chymunedau i ddod ynghyd a gweithredu ar y cyd ar adnoddau, e.e. trwy redeg caffis trwsio neu aiddosbarthu bwyd dros ben.

Rôl y Sector Cyhoeddus fel Arweinydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu'n sylw'n gyson at y ffaieth bod gan y sector cyhoeddus rôl bwysig fel arweinydd. Dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru wneud mwy na lleihau allyriadau. Dylai ddefnyddio ei sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar leihau allyriadau ar lefel ehangach, boed yn ei weithlu, ei gadwyn gyflenwi, neu drwy ei gyfrifoldebau statudol. Dyma pam yn 2017 y gwnaethom osod yr uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn sero net drwyddo erbyn 2030. Mae mesur allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn gywir yn hanfodol, felly hefyd gosod llwybr ar gyfer gwneud y newid. Felly, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus i gyd-greu pecyn cymorth, sy'n cynnwys map o'r llwybr at ddatgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru:

<https://gov.wales/sites/default/files/%20publications/2021-07/a-route-map-for%20decarbonisation-across-the-welsh-public%20sector.pdf>

a chanllaw sector cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero net:

[Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r canllawiau hyn yn annog y sector cyhoeddus i ystyried ei effeithiau o'r safbwynt ehangaf a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith.

Credaf fod Cynllun Sero Net Cymru yn gam ymlaen o safbwynt uchelgais a gweithred. Fodd bynnag, rhaid imi danlinellu'r pwynt, megis dechrau ydym ni. Byddaf yn gweithio'n benderfynol gyda'm cyd-aelodau yn y Cabinet a chyda phartneriaid a rhanddeiliaid yng Nghymru a thu hwnt. Gyda'n gilydd byddwn yn datblygu polisiau pellach sy'n cyflawni ein targedau sero net ac yn creu cenedl fwy ffyniannus, cyfartal ac iach. Edrychaf ymlaen at ddod i'r pwyllgor ar 25 Tachwedd, i drafod y pwyntiau uchod a Chynllun Cymru Sero Net yn fanylach.



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and
Constitution Committee**

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Annwyl Mick

Fframweithiau Cyffredin

Yn ein cyfarfod heddiw, gwnaethom nodi'n ffurfiol eich **llythyr** dyddiedig 8 Tachwedd, lle gwnaethoch roi gwybod inni y byddai cyfarfod gweinidogol pedairochrog ar fframweithiau cyffredin yn cael ei gynnal ar 10 Tachwedd.

Rydym yn ddiolchgar ichi am ddarparu gwybodaeth i ni ynghylch pwy oedd i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw a beth fyddai ffocws y trafodaethau, ynghyd â rhestr o'r eitemau ar yr agenda ddrafft.

Rydym yn cydnabod eich bod wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch canlyniadau'r cyfarfod pedairochrog o fewn pythefnos i'w gynnal. Serch hynny, mae nifer o gwestiynau yr ydym yn dymuno eu gofyn ichi nawr, fel y gellir ymdrin â hwy cyn gynted ag y bo modd.

Byddwch yn cofio imi **ysgrifennu** atoch ym mis Gorffennaf yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y rhaglen fframweithiau cyffredin. Roedd y **llythyr** a anfonwyd gennych mewn ymateb, dyddiedig 7 Medi, yn ddefnyddiol iawn inni o ran asesu a chynllunio ar gyfer y llwyth gwaith a ragwelir. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech ddarparu'r eitemau a ganlyn:

1. y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y rhaglen fframweithiau cyffredin, gan gynnwys y cynnydd a wneir tuag at gytundeb ar sut y bydd y fframweithiau'n ymdrin â rhwymedigaethau rhyngwladol a sut y byddant yn rhyngweithio â *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020* a Phrotocol Gogledd Iwerddon;

15 Tachwedd 2021

2. dyddiad wedi'i gadarnhau (neu ddyddiad tebygol) ar gyfer cyhoeddi pob fframwaith dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd, a hynny er mwyn sicrhau tryloywder i randdeiliaid y bydd y penderfyniadau a wneir ar gyfreithiau a pholisiau yn y meysydd hyn yn effeithio arnynt;
3. y dyddiad erbyn pryd y mae Llywodraethau'r DU yn disgwyl y bydd yr holl fframweithiau cyffredin wedi bod yn destun gwaith craffu gan eu priod Seneddau ac yn destun gwaith i'w cwblhau yn dilyn hynny.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 25 Tachwedd 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and
Constitution Committee**

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol

Annwyl gyfeillion

Eitem 3.2

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

8 Tachwedd 2021

**Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaethau ym Mil Amgylchedd
Llywodraeth y DU**

Ddydd Mawrth yr wythnos diwethaf yn y Cyfarfod Llawn, yn ystod y sylwadau i gloi'r ddadl ar y cynnig cydsyniad uchod, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y canlynol:

"I ailadrodd y pwynt fy mod i'n llwyr fwriadu cyflwyno Bil plastigau defnydd untro i'r Senedd. Fodd bynnag, rydym ni wedi ein cynnwys mewn problemau penodol sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'r trefniadau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hi."

Fodd bynnag, pan holwyd y Cwnsler Cyffredinol am effaith Deddf 2020 mewn sesiwn dystiolaeth ar 22 Medi, dywedodd y canlynol wrthym:

"So, essentially, we do not have regard to the internal market Act in terms of our legislation. We work on the basis of the devolved powers that we actually have, as determined by the various Government of Wales legislation. We do not think that the internal market Act lawfully limits those devolved responsibilities."

Ar 22 Hydref, mewn ymateb i gwestiwn ar Ddeddf 2020 yn ein llythyr ar 8 Hydref, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

8. A yw Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen ddeddfwriaethol ar y sail nad yw effaith ymarferol deddfau Cymru o fewn cwrmpas y Farchnad Fewnol yn

cael e[u] heffeithio a'u tanseilio, fel y dadleuwyd yn ei sail dros gynnal adolygiad barnwrol?

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad yw'r Ddeddf wedi newid y setliad datganoli. Yn wir, dyna'r hyn yr ydym wedi'i gyflwyno fel rhan o'r Adolygiad Barnwrol sy'n herio Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, sydd bellach ar y cam apelio yn y Llys Apêl. Rydym yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i rhaglen deddfwriaethol ar y sail honno... "

Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro'r sylwadau ynghylch y Bil plastigau untro yng nghyd-destun Deddf 2020 a hefyd safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch effaith Deddf 2020 ar ei dull o ddeddfu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

11 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

P-05-1181 Mae treillio ar wely'r môr yn lladd ein bywyd gwyllt morol... Rhowch y gorau i chwalu'n moroedd! Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref 2021, ac am dynnu ein sylw at y ddeiseb uchod.

Mae'r Pwyllgor wrthi'n cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd ac mae eisoes wedi tynnu sylw at yr amgylchedd morol, gan gynnwys Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, fel maes o ddiddordeb.

Rydym wedi cytuno i wneud darn byr o waith ynglŷn â rheoli'r amgylchedd morol i fynd ar drywydd amrywiaeth o faterion a godwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n hymgyngoriad ar flaenoriaethau'r Chweched Senedd. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid yn ein cyfarfod ddydd lau 9 Rhagfyr 2021. Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor drafod y mater a godwyd gan y deisebydd gyda rhanddeiliaid.

Yn dibynnu ar ganlyniad y sesiwn, efallai yr hoffem ysgrifennu at y Gweinidog i drafod materion sy'n codi ymhellach.

Byddwn yn hapus i rannu unrhyw faterion sy'n codi o'r sesiwn gyda chi.

Cofion,



Llyr Gruffydd AS,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

We welcome correspondence in both English and Welsh



Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

18 Tachwedd 2021

Annwyl Julie

Carthion yn gollwng o orlifoedd stormydd

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Tachwedd 2021, trafodwyd y diwygiadau i Fil Amgylchedd y DU, sydd bellach yn Ddeddf yr Amgylchedd 2021 ('Deddf 2021'), mewn perthynas â rhyddhau carthion heb eu trin, a ystyriwyd yn ystod ping pong.

Rydym yn deall bod Deddf 2021 yn cynnwys darpariaethau sy'n anelu at leihau effaith andwyol gollyngiadau ymgymerwyr carthffosiaeth o orlifoedd stormydd yn Lloegr, gan gynnwys:

- gofyniad i ymgymerwyr carthffosiaeth sicrhau gostyngiad cynyddol yn effaith andwyol gollyngiadau o'u gorlifoedd stormydd;
- gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi cynllun lleihau gollyngiadau gorlifoedd stormydd ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at ei weithredu;
- gofyniad i ymgymerwyr carthffosiaeth gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'u gorlifoedd stormydd; a
- gofyniad i Asiantaeth yr Amgylchedd gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'u gorlifoedd stormydd.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn perthynas â Chymru.

Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ymateb i'r cwestiynau a ganlyn.

